| Cenhadaeth | Argymhelliad | Cyrff Cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | Llywodraeth Cymru |
| --- | --- | --- | --- |
| Gweithredu ac Effaith | 1. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gryfhau ei heffaith ac i baratoi ar gyfer diweddariadau i Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn 2030. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys deialog gyhoeddus i ymgysylltu â phobl ledled Cymru i lunio polisi lles dyfodol. | | ✓ |
| Gweithredu ac Effaith | 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru asesu a symleiddio strwythurau partneriaeth i leihau cymhlethdod a gwella cydlynu ledled Cymru. | | ✓ |
| Gweithredu ac Effaith | 3. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cyfrifoldeb o weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau gyda'r Prif Weinidog. | | ✓ |
| Gweithredu ac Effaith | 4. Rhaid i gyrff cyhoeddus sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am feysydd newid corfforaethol yn deall Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol mewn ffordd sy'n gwella ansawdd a chysondeb gweithredu trwy hyfforddiant gorfodol a datblygu gallu. | ✓ | ✓ |
| Gweithredu ac Effaith | 5. Rhaid i gyrff cyhoeddus gynyddu ymgysylltiad â'r cyhoedd i adeiladu ymddiriedaeth, cryfhau consensws, a phontio'r bwlch rhwng llunio polisi a dinasyddion. | ✓ | ✓ |
| Cenhadaeth Hinsawdd a Natur | 6. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno prif darged statudol ar gyfer adferiad natur erbyn 2050 mewn deddfwriaeth sylfaenol erbyn 2026, gyda thargedau pellach yn adlewyrchu'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang mewn is-ddeddfwriaeth, cynllun gweithredu clir a threfniadau cyllido hirdymor. | | ✓ |
| Cenhadaeth Hinsawdd a Natur | 7. Mae defnyddio ein tir yn ddoeth yn fwy pwysig nac erioed. Yn dilyn ei hadolygiad 5 mlynedd nesaf o Gymru yn y Dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith defnydd tir a morol integredig sy'n cydbwyso ymrwymiadau i adfer natur, cefnogi cynhyrchu bwyd, gwella gwytnwch hinsawdd a darparu tai a seilwaith newydd. Dylai'r fframwaith fod yn cyd-fynd â chanllawiau a phecynnau cymorth i gefnogi gwneud penderfyniadau lleol. | | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cenhadaeth Hinsawdd a Natur | 8. Gan adeiladu ar y buddsoddiad mewn byrddau rheoli maetholion a fforymau arfordirol ac afonydd presennol, dylai Llywodraeth Cymru ehangu eu cylch gorchwyl fel rhai sy'n gwneud penderfyniadau dibynadwy wrth adfer afonydd. Dylai'r partneriaethau hyn ddod ag ystod amrywiol o randdeiliaid ynghyd i gyd-greu cynlluniau gweithredu a rennir, tra'n galluogi rheoleiddwyr fel Cyfoeth Naturiol Cymru i weithio'n fwy cydweithredol a gyrru newid cadarnhaol, hirdymor. | | ✓ |
| Cenhadaeth Hinsawdd a Natur | 9. O fewn tymor nesaf y Llywodraeth, mae angen deddfwriaeth i roi'r un pwerau rheoleiddio i Cyfoeth Naturiol Cymru â'i gymar yn Lloegr, gan gynnwys yr awdurdod i gyhoeddi sancsiynau sifil, megis gorchmynion stopio a dirwyon am weithgareddau llygredig. | | ✓ |
| Cenhadaeth Hinsawdd a Natur | 10. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu tîm arbenigol a thraws-sector, i gefnogi cyrff cyhoeddus i baratoi cynigion sy'n barod i fuddsoddi a all ddenu cyllid sector preifat ar gyfer adferiad natur a sero net, gan sicrhau aliniad ag egwyddorion buddsoddi cynaliadwy. | | ✓ |
| Cenhadaeth Hinsawdd a Natur | 11. Dylai Awdurdod Refeniw Cymru gael y dasg o neilltuo dirwyon a thaliadau amgylcheddol i ariannu gweithredu hinsawdd a natur yn uniongyrchol. | | ✓ |
| Cenhadaeth Hinsawdd a Natur | 12. O 2025 ymlaen, rhaid i gyrff cyhoeddus flaenoriaethu gwytnwch hinsawdd, budd net i fioamrywiaeth, a lleihau plaladdwyr yn y ffordd y maent yn rheoli eu stadau, gan gynnwys eu hadeiladau, ffermydd tenantiaid, parciau, ymylon ochr y ffordd ac asedau tir eraill. | ✓ | ✓ |
| Cenhadaeth Hinsawdd a Natur | 13. Mae ynni adnewyddadwy lleol, gan gynnwys ynni cymunedol a pherchnogaeth gyhoeddus, rôl ganolog i'w chwarae wrth gyflawni sero net. Mae angen mwy o adnoddau a chefnogaeth yn genedlaethol. Dylai sefydliadau'r sector cyhoeddus gynyddu eu cydweithrediad â phrosiectau ynni lleol trwy ryddhau tir ar gyfer mentrau ar y cyd ac ymrwymo i brynu'r trydan. | ✓ | ✓ |
| Cenhadaeth Hinsawdd a Natur | 14. Rhaid i wydnwch ac addasu i'r hinsawdd ddod yn flaenoriaeth gwasanaeth cyhoeddus craidd. Erbyn diwedd 2027, dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus asesu risgiau hinsawdd i'w cymunedau, gan ddiweddaru eu canfyddiadau bob pum mlynedd fel rhan o'u hasesiadau llesiant. Rhaid i gyrff cyhoeddus integreiddio'r canfyddiadau hyn yn eu cynllunio corfforaethol a strategol. | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cenhadaeth Hinsawdd a Natur | 15. Rhaid i'r sector cyhoeddus ddod yn rhydd o ddatgoedwigo erbyn 2028, gan sicrhau nad yw cadwyni cyflenwi yn cyfrannu at ddatgoedwigo byd-eang, colli cynefinoedd neu dorri hawliau dynol, gan gynnwys llafur plant a cham-drin hawliau pobl frodorol. | ✓ | ✓ |
| Cenhadaeth Iechyd a Lles | 16. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo Cymru i ddod yn genedl Marmot, gan addasu model Marmot gydag egwyddorion wedi'u teilwra sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn helpu i leihau anghydraddoldebau a gwella lles ein poblogaeth. | | ✓ |
| Cenhadaeth Iechyd a Lles | 17. Dylai Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG sicrhau bod atal wedi'i ymgorffori ar ddechrau'r holl lwybrau clinigol, gyda mesurau perfformiad wedi'u haddasu i adlewyrchu'r newid hwn. | | ✓ |
| Cenhadaeth Iechyd a Lles | 18. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun i atal y cynnydd mewn gordewdra o fewn pum mlynedd, ei wrthdroi o fewn deg a chreu Cymru sy'n cefnogi pwysau iach yn ddiofyn erbyn 2035, gan leihau anghydraddoldebau. | | ✓ |
| Cenhadaeth Iechyd a Lles | 19. Dylai cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus weithio gyda'i gilydd, ynghyd â'r sectorau preifat a gwirfoddol, i weithredu'r model cymdeithasol o iechyd, creu lleoedd a/neu egwyddorion Marmot i wella gweithredu ar y penderfynyddion ehangach a lleihau anghydraddoldebau yn eu hardaloedd. | ✓ | |
| Cenhadaeth Iechyd a Lles | 20. Dylai cyrff cyhoeddus gynnwys atal fel amcan strategol craidd mewn strategaethau a chynllunio corfforaethol. | ✓ | ✓ |
| Cenhadaeth Iechyd a Lles | 21. Dylai cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio asesiadau lles Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac asesiad anghenion poblogaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i nodi'r anghydraddoldebau mwyaf arwyddocaol yn eu poblogaethau a datblygu cynlluniau wedi'u targedu i gau'r bwlch tegwch mewn canlyniadau iechyd. | ✓ | |
| Cenhadaeth Diwylliant a'r Gymraeg | 22. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Bil Diwylliant i Seithfed Tymor y Senedd (2026 - 2030), er mwyn gwneud diwylliant yn ofyniad statudol ar gyfer cyrff cyhoeddus. Bydd hyn yn cryfhau rôl diwylliant mewn lles cenedlaethol ac yn sicrhau bod diwylliant yn derbyn y gydnabyddiaeth a'r buddsoddiad y mae'n ei haeddu. | | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cenhadaeth Diwylliant a'r Gymraeg | 23. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i Ddeddf Hawl Cymunedol i Brynu i rymuso cymunedau i gymryd perchnogaeth o adeiladau lleol gwerthfawr, tir ac asedau cymunedol, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod wrth wraidd cymunedau ffyniannus. | | ✓ |
| Cenhadaeth Diwylliant a'r Gymraeg | 24. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru benodi Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Chwaraeon. | | ✓ |
| Cenhadaeth Diwylliant a'r Gymraeg | 25. Dylai pob corff cyhoeddus yng Nghymru ddatblygu cynllun clir i gynyddu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus. Bydd hyn yn caniatáu i staff fyw eu bywydau gwaith fwyfwy trwy gyfrwng y Gymraeg, gan feithrin diwylliant dwyieithog cryfach yn y gweithle. | ✓ | ✓ |
| Cenhadaeth Diwylliant a'r Gymraeg | 26. Dylai pob corff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus arwyddo Siarter Creu Lleoedd Cymru ac integreiddio ei hegwyddorion yn eu gwaith. | ✓ | |
| Cenhadaeth Diwylliant a'r Gymraeg | 27. Dylai pob corff cyhoeddus gynhyrchu strategaeth gwirfoddoli sefydliadol mewn partneriaeth â gweithwyr a'r sector gwirfoddol i hybu gwirfoddoli ledled y wlad. | ✓ | ✓ |
| Cenhadaeth yr Economi Llesiant | 28. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sectorau allweddol lle mae'r sector preifat yn methu â gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol – a datblygu cynlluniau i weithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol gyda busnesau yn y sectorau hyn. | | ✓ |
| Cenhadaeth yr Economi Llesiant | 29. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob busnes sy'n derbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru yn bodloni set safonol o ymrwymiadau sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai hyn gynnwys achrediad Cyflog Byw Go Iawn fel gofyniad sylfaenol. | | ✓ |
| Cenhadaeth yr Economi Llesiant | 30. Dylai Llywodraeth Cymru osod targed i ddyblu maint y sector busnes cymdeithasol yng Nghymru erbyn 2035 a pharhau i gefnogi Busnes Cymdeithasol Cymru a Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru i gyflawni hyn. | | ✓ |
| Cenhadaeth yr Economi Llesiant | 31. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector cyhoeddus ehangach i lansio Hwb Datblygu Cydweithredol a chefnogi mentrau cymdeithasol i ehangu i gadwyni cyflenwi yn y sector cyhoeddus a phreifat. | | ✓ |
| Cenhadaeth yr Economi Llesiant | 32. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun gweithredu ar frys erbyn 2027 i sicrhau bod gan Gymru'r sgiliau i gyflawni pontio cyfiawn i economi lles carbon isel, ac ar yr un pryd gwella canlyniadau addysgol ôl-16 a lleihau anghydraddoldebau. | | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cenhadaeth yr Economi Llesiant | 33. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu comisiwn i archwilio effaith deallusrwydd artiffisial ar draws gwasanaethau cyhoeddus, cynllunio'r gweithlu, a seilwaith digidol, a gosod cyfeiriad cenedlaethol clir ar gyfer defnyddio deallusrwydd artiffisial moesegol a chyfrifol. | | ✓ |
| Cenhadaeth yr Economi Llesiant | 34. Rhaid i genhadaeth economaidd Llywodraeth Cymru a phedair strategaeth economaidd ranbarthol y Cyd-bwyllgor Corfforaethol ymgorffori'n llawn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel fframwaith ar gyfer dylunio strategaethau datblygu economaidd ac wrth weithredu a mesur cynnydd. | ✓ | ✓ |
| Cenhadaeth yr Economi Llesiant | 35. Erbyn 2027 rhaid i bob sefydliad sector cyhoeddus ymrwymo i gynllun ar sut y byddant yn cyflawni achrediad Cyflog Byw Go Iawn. | ✓ | |
| Cenhadaeth yr Economi Llesiant | 36. Dylai Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus sicrhau bod gan bob cymuned yng Nghymru fynediad at ganolfan atgyweirio ac ailddefnyddio leol erbyn 2035. | ✓ | ✓ |
| Bwyd | 37. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ddatblygu cynllun gwytnwch bwyd cenedlaethol i sicrhau mynediad cyfartal at ddeietau lleol, fforddiadwy, iach a chynaliadwy. Dylid integreiddio bwyd a dietau i ddyletswyddau, nodau a dangosyddion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | | ✓ |
| Bwyd | 38. Dylai Llywodraeth Cymru ehangu prydau ysgol am ddim i bob plentyn hyd at 16 oed, gan sicrhau bod gan bob plentyn yng Nghymru, gan gynnwys plant o aelwydydd heb ddefnydd o arian cyhoeddus, fynediad at fwyd iach a chynaliadwy yn yr ysgol. | | ✓ |
| Bwyd | 39. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r rhaglen Sgiliau Maeth am Oes ar draws pob ysgol yng Nghymru, gan sicrhau bod pob plentyn yn gadael yr ysgol yn llythrennog bwyd, gyda'r sgiliau a'r wybodaeth i gynnal diet iach a chynaliadwy. | | ✓ |
| Bwyd | 40. Dylai pob Awdurdod Lleol ddatblygu cynllun gwytnwch bwyd lleol mewn cydweithrediad â Bwyd Lleol | ✓ | ✓ |
| Bwyd | 41. Dylai Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol sicrhau bod pob pryd ysgol am ddim yn cynnwys o leiaf ddwy ran o lysiau tymhorol a gynhyrchir yn lleol ac yn gynaliadwy. Dylai awdurdodau lleol ymuno â'r rhaglen Llysiau mewn Ysgolion i adeiladu cadwyni cyflenwi garddwriaeth leol gwydn. | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bwyd | 42. Dylai pob corff cyhoeddus leihau neu ddileu'r ddarpariaeth o grwpiau bwyd y gellir eu categoreiddio fel 1) Bwydydd Ultra-Prosesu (UPF) a hefyd 2) sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr (HFSS) o'u safleoedd, megis ysgolion, ysbytai, canolfannau hamdden a chartrefi gofal. Dylai cyrff cyhoeddus wahardd hysbysebu a hyrwyddo'r grwpiau bwyd hyn o bob gofod hysbysebu a marchnata sy'n eiddo i'r cyhoedd. | ✓ | ✓ |
| Food | 43. Dylai Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd gydweithio i gyflwyno cynllun talebau ffrwythau a llysiau ffres Cymreig ar gyfer aelwydydd incwm isel, gan helpu teuluoedd i fforddio bwyd maethlon tra'n cefnogi tyfwyr bwyd lleol. | ✓ | ✓ |
| Cyllideb | 44. Dylai Llywodraeth Cymru neilltuo cyllid ar gyfer atal sy'n cynyddu dros amser. | | ✓ |
| Cyllideb | 45. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno'r broses pennu'r gyllideb a chynhyrchu setliad cyllid aml-flwyddyn. | | ✓ |
| Cyllideb | 46. Rhaid i gyrff cyhoeddus osod eu cyllidebau blynyddol yn erbyn dangosyddion lles cenedlaethol Cymru (yn dilyn modelau tebyg yng Ngweriniaeth Iwerddon a Dinas Strasbwrg). | ✓ | ✓ |
| Cyllideb | 47. Dylai cyrff cyhoeddus ddefnyddio'r diffiniad cytunedig o atal rhwng Llywodraeth Cymru a fy swyddfa i fapio eu gwariant ataliol a buddsoddi yn raddol yn fwy i fyny'r afon tuag at atal sylfaenol. | ✓ | ✓ |
| Mae'r dyfodol nawr | 48. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu gweledigaeth a chynllun ar gyfer gweithlu sector cyhoeddus Cymru yn y dyfodol, gan nodi'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau yn effeithiol mewn byd sy'n newid. | | ✓ |
| Mae'r dyfodol nawr | 49. Dylai pob corff cyhoeddus greu gweledigaeth a chynllun hirdymor ar gyfer dyfodol pob sefydliad, wedi'i gynllunio ar y cyd â phartneriaid a chymunedau. | ✓ | ✓ |
| Mae'r dyfodol nawr | 50. Dylai pob corff cyhoeddus benodi Hyrwyddwr y Dyfodol i ymgysylltu â Hwb Dyfodol, gan ymgorffori meddwl am y dyfodol ar draws eu sefydliad. | ✓ | ✓ |